# Y Pwyllgor Darlledu

**BCC(3)-07-08 (p.4)**

## Y Newid i Deledu Digidol yng Nghymru: papur briffio ar gyfer Pwyllgor Darlledu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**9 Mehefin 2008**

### Cyflwyniad

Mae Digital UK yn croesawu'r cyfle i gyflwyno papur briffio byr i'r Pwyllgor Darlledu. Nod y papur hwn yw amlinellu rhai o'r cerrig milltir, y materion a'r sialensiau allweddol y mae Digital UK yn eu hwynebu wrth i ni symud tuag at y flwyddyn olaf o ran y gwaith paratoi ar gyfer y newid i deledu digidol yng Nghymru. Yn ogystal, fe'i cynlluniwyd i ddarparu tystiolaeth:

- Bod y newid i ddigidol yng Nghymru yn mynd yn ei flaen yn ôl y disgwyl ac mewn pryd
- Y bydd y newid yn sicrhau manteision sylweddol i wylwyr yng Nghymru gan gynnwys y gallu i dderbyn Channel 4 yn ogystal ag S4C o drosglwyddyddion yng Nghymru.
- Bod nifer o wylwyr yn gwybod pryd y bydd y newid yn digwydd yn eu hardal yn barod, a'r hyn y bydd angen iddynt ei wneud
- Bod Digital UK a Chynllun Cymorth y Newid (CCN) yn bwriadu mynd ati i ddelio ag anghenion yr holl wylwyr gan gynnwys y rhai y bydd angen help ychwanegol arnynt efallai er mwyn delio â'r newid, a'r rhai y maent yn gymwys i fanteisio ar y Cynllun Cymorth

### Cefndir y newid

Bydd y newid i deledu digidol yn golygu y bydd teledu daearol digidol, a elwir Freeview fel arfer, ar gael i bawb erbyn 2012. Bydd diffodd y signal analog a'i ddisodli gyda signal digidol yn cynnig mwy o ddewis i wylwyr, gan ryddhau sbectrwm ar gyfer gwasanaethau newydd. Cyflwynir rhaglen y newid i ddigidol yn y DU ar ffurf rhaglen dreigl genedlaethol a rhanbarthol, ac fe'i cynlluniwyd i gyd-fynd â'r broses sy'n digwydd mewn gwledydd Ewropeaidd cyfagos.

Digital UK, sy'n cynrychioli'r prif ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (BBC, ITV, S4C, Channel 4 a Five) yw'r sefydliad annibynnol di-elw sy'n arwain proses y newid i deledu digidol yn y DU. Mae Digital UK yn darparu

gwybodaeth ddiduedd ynghylch yr hyn y bydd angen i bobl ei wneud er mwyn paratoi ar gyfer y newid i ddigidol, a phryd y bydd angen iddynt wneud hynny.

Mae Digital UK yn cydweithio'n agos gyda BBC Cymru, ITV Cymru, S4C ac Ofcom Cymru ac mae'n briffio swyddogion a gweinidogion Llywodraeth y DU, swyddogion ac aelodau'r Cynulliad ynghylch y newid yn rheolaidd.

## Y niferoedd sy'n manteisio ar deledu digidol yng Nghymru ar hyn o bryd

Yn ôl Chwarter 1 Arolwg Olrhain y Newid 2008[1] Digital UK/Ofcom, gwelir un o'r cyfraddau uchaf yn y DU o ran manteisio ar deledu digidol, yng Nghymru, gan adlewyrchu derbyniad teledu daearol analog cymharol isel , a phoblogrwydd teledu lloeren.

- Mae 88% o'r cartrefi yng Nghymru yn meddu ar deledu digidol yn barod (86.7% yw'r ffigwr ar gyfer y DU).
- Mae mwyafrif y prif setiau teledu yng Nghymru yn manteisio ar wasanaeth lloeren (46% o'i gymharu â 31% sy'n cael teledu daearol digidol a 10% sy'n cael gwasanaeth cebl).
- Mae cyfran y cartrefi yng Nghymru lle y mae'u holl setiau teledu yn barod am ddigidol yn uwch na'r cyfartaledd yn y DU – 60% o'u cymharu â 57%).
- Mae pobl dros 75 oed (sydd yn gymwys i fanteisio ar y Cynllun Cymorth) ar draws y DU yn llai tebygol o fod wedi newid i deledu digidol,– 67%.
- Mae lefel y bobl sydd ag anableddau (ac sy'n gymwys i fanteisio ar y Cynllun Cymorth) ar draws y DU, yn agosach i'r lefel ar gyfartaledd sydd wedi newid i deledu digidol – 83%

## Dealltwriaeth o'r newid

Mae lefelau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r newid i ddigidol yng Nghymru yn uwch na'r cyfartaledd yn y DU.  Fodd bynnag, mae Digital UK yn cydnabod bod angen sicrhau bod pawb yn gwybod yr union ddyddiad pan fydd eu trosglwyddydd yn newid:

- Yn Ch1 2008, roedd lefel ymwybyddiaeth y boblogaeth yng Nghymru o'r newid yn uwch (92% o'i chymharu â 90% yn y DU) ac roeddent yn meddu ar well dealltwriaeth ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn paratoi ar gyfer y newid (73% o'i chymharu â 70% yn y DU).
- Gall hanner y rhai yng Nghymru (50%) enwi'r flwyddyn gywir pan fydd y newid yn digwydd, o'i gymharu ag oddeutu 1 o bob 4 ar draws y DU (27%)
- Yng Nghymru, mae 3 o bob 5 (59%) yn meddu ar ddealltwriaeth fanwl ynghylch y newid i ddigidol, o'i gymharu â llai na hanner (48%) ar draws y DU.

---

[1] Mae Arolwg Olrhain Digital UK / Ofcom (arolwg meintiol a gynhelir gan GfK NOP trwy fynd o ddrws i ddrws) yn cyfweld dros 2,800 o gartrefi bob chwarter yn y DU, ac o leiaf 300 o gartrefi yng Nghymru bob chwarter.  Cesglir y sampl yn unol â chwotâu ac mae'n cael ei bwysoli er mwyn sicrhau ei fod yn hollol gynrychioliadol o'r rhanbarth.

## Y cefndir technegol:

Gydag wyth prif drosglwyddydd a 198 o drosglwyddyddion llai yn newid dros gyfnod o ddwy flynedd a sawl enghraifft o orgyffwrdd o ran ardaloedd gwasanaeth y trosglwyddyddion, mae amserlen y newid yng Nghymru yn gymhleth. Er enghraifft, bydd y rhannau hynny o Abertawe a wasanaethir gan Fryn Cilfái yn newid rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2009, a bydd y rhai a wasanaethir gan Gwenfô yn newid rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2010.

Mae Cymru yn cynnwys wyth grŵp o brif drosglwyddyddion:

- **Grŵp trosglwyddydd Bryn Cilfái** gyda'i 9 trosglwyddydd llai, sy'n gwasanaethu oddeutu 132,000 o gartrefi yn ardal Abertawe, a fydd yn newid rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2009

- **Grŵp trosglwyddydd Preseli** gyda'i 25 trosglwyddydd llai, sy'n gwasanaethu oddeutu 82,000 o gartrefi yn ne orllewin Cymru, a fydd yn newid rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2009

- **Grŵp trosglwyddydd Carmel** gyda'i 19 trosglwyddydd llai, sy'n gwasanaethu oddeutu 114,000 o gartrefi yng nghanolbarth a de Cymru, a fydd yn newid rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2009

- **Grŵp trosglwyddydd Llanddona** gyda'i 22 trosglwyddydd llai, sy'n gwasanaethu oddeutu 113,000 o gartrefi yng ngorllewin Cymru, a fydd yn newid rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2009

- **Grŵp trosglwyddydd Moel-y-Parc** gyda'i 20 trosglwyddydd llai, sy'n gwasanaethu oddeutu 166,000 o gartrefi yn nwyrain Cymru, a fydd yn newid rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2009

- **Grŵp trosglwyddydd Mynydd Hir** gyda'i 14 trosglwyddydd llai, sy'n gwasanaethu cartrefi yng nghanolbarth a dwyrain Cymru, a fydd yn newid rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2009

- **Grŵp trosglwyddydd Blaenplwyf** gyda'i 14 trosglwyddydd llai, sy'n gwasanaethu oddeutu 32,000 o gartrefi yng nghanolbarth a gorllewin Cymru, a fydd yn newid rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2010

- **Grŵp trosglwyddydd Gwenfô** gyda'i 75 trosglwyddydd llai, sy'n gwasanaethu oddeutu 622,000 o gartrefi yng Nghaerdydd a de-ddwyrain Cymru, a fydd yn newid rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2010

Yn draddodiadol, mae rhai cartrefi yng Nghymru wedi bod yn derbyn eu signal o drosglwyddyddion yn Lloegr er mwyn derbyn yr holl sianelau bosibl. Am y tro cyntaf, bydd y newid i ddigidol yn golygu y bydd modd i wylwyr yng Nghymru dderbyn S4C a Channel 4 o bob trosglwyddydd yng Nghymru:

At hynny, bydd trosglwyddydd newydd Storeton yng Nghilgwri (Wirral) yn gwella'r cyfleoedd cyffredinol i fanteisio ar wasanaethau teledu o Gymru.

Bydd nifer o wylwyr sy'n byw yng ngogledd ddwyrain Cymru yn gallu cael y gwasanaethau hyn am y tro cyntaf.

## Sianelau teledu a fydd ar gael

Ar ôl y newid, bydd 97.8% o'r cartrefi yn gallu gwylio o leiaf 20 o'r sianelau digidol Freeview mwyaf poblogaidd, am y tro cyntaf yn achos nifer ohonynt.

Ar hyn o bryd, mae modd i 57% o'r cartrefi yng Nghymru fanteisio ar wasanaeth llawn Freeview o dros 40 o sianelau. Bydd y ffigwr hwn yn codi i 73% o gartrefi ar ôl y newid.

Bydd modd i wylwyr sy'n dymuno manteisio ar fwy na'r 20 neu'r 40 o sianelau y byddant yn gallu eu cael gan Freeview ar ôl y newid, ddewis o blith ystod o wasanaethau lloeren am ddim neu dan drefniant tanysgrifio sy'n cynnig rhwng 90 a 400 o sianelau teledu.

## Digital UK yng Nghymru

Cychwynnodd Digital UK ymgyrch gyfathrebu genedlaethol yng Nghymru yn 2006. ond bydd yn symud i ddull gweithredu rhanbarthol er mwyn adlewyrchu amseru'r newid mewn gwahanol ardaloedd a lleoliad daearyddol trosglwyddyddion:

- gorllewin Cymru, Gorffennaf – Medi 2009
- gogledd Cymru, Hydref – Rhagfyr 2009
- Blaenplwyf, (gorllewin a chanolbarth Cymru), Ionawr – Mawrth 2010
- de Cymru, Ionawr – Mawrth 2010.

Mae'r ymgyrch ddwyieithog yn cynnwys tair prif elfen:

- Ymgyrch wybodaeth gyhoeddus a fydd yn hysbysu gwylwyr o'r adeg pan fydd y newid yn digwydd a'r hyn y bydd angen iddynt ei wneud er mwyn paratoi ar ei gyfer
- Cymorth i'r sector tai a'r sector masnachol gan hysbysu busnesau a chyrff cyhoeddus, a fydd yn tywys gwylwyr trwy'r newid
- Cymorth cymunedol lleol i'r rhai allai fod arnynt angen rhywfaint o help ychwanegol yn ystod proses y newid

### 1. Ymgyrch wybodaeth gyhoeddus

- Taflenni gwybodaeth i bob cartref – bydd Digital UK yn anfon ail daflen esboniadol i bob cartref yng Nghymru ym mis Ionawr 2009 (dosbarthwyd y gyntaf yn 2006). Dosberthir taflen bellach, a fydd yn cynnwys gwybodaeth fanwl ynghylch sut i newid, i bob cartref dri mis cyn y bydd pob grŵp trosglwyddydd unigol yn newid i ddigidol
- Pecyn Cymdogion Da – Dosberthir pecyn cymunedol a fydd yn cynnwys deunyddiau a DVD llawn gwybodaeth i elusennau, canolfannau cymunedol, llyfrgelloedd a Chanolfannau Cynghori yn ystod y cyfnod cyn y newid

- Capsiynau ar y Sgrîn – darlledir capsiynau ar y gwasanaethau teledu analog a fydd yn hysbysu gwylwyr o'r ffaith bod y newid ar fin digwydd, chwe mis, tri mis ac un mis cyn y newid
- Hysbysebu – Mae ymgyrch Digital UK yn cynnwys hysbysebion ar y teledu, ar y radio ac yn y wasg.  Yn ogystal, cynhelir rhaglen helaeth o sioeau teithiol ar hyd a lled y wlad yn ystod y cyfnod cyn y newid cyntaf yng Nghymru
- Llinell ffôn – bydd modd i wylwyr fanteisio ar gymorth cynghorwyr profiadol Digital UK trwy ffonio 0845 6 50 50 50 (Llinell ffôn Gymraeg – 0845 8 48 48 48)
- Gwefan – Mae modd gweld gwybodaeth bellach am y newid yng Nghymru ar-lein trwy droi at http://www.digitaluk.co.uk/when/wales ac yn Gymraeg trwy droi at http://www.digitaluk.co.uk/cy

## 2. Cymorth Masnachol a Thai

- Tai cymdeithasol – Rhoddwyd cyngor i'r holl ddarparwyr tai cymdeithasol, gan gynnwys manylion ynghylch Cynllun Achredu 'Cartrefi sy'n Barod am Ddigidol' Digital UK.  Mae Is-adran Tai Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chartrefi Cymunedol Cymru wedi dosbarthu gwybodaeth hefyd.
- Cartrefi gofal – Ysgrifennwyd at gartrefi gofal yn yr ardal, a byddwn yn cysylltu â nhw cyn y newid
- Cymorth adwerthu – Cynigir cymorth hyfforddi a marchnata i adwerthwyr lleol gan Swyddog Cymorth Adwerthu o fis Mehefin eleni.
- Cymorth i osodwyr erialau – Dosberthir deunydd a fydd yn cynnwys y wybodaeth dechnegol angenrheidiol ar gyfer y newid ddwywaith, flwyddyn cyn y newid a chwe mis cyn y newid cyntaf
- Sector twristiaeth – mae Croeso Cymru wedi cytuno dosbarthu gwybodaeth trwy ddefnyddio ei gronfa ddata ac anfonwyd llythyrau at 4000 o fusnesau twristiaeth yng Nghymru yn electronig.
- Landlordiaid preifat – Flwyddyn cyn y newid, byddwn yn ysgrifennu at asiantau rheoli a gosod yn yr ardal.
- Mae Dr Brian Gibbons, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol wedi ysgrifennu at yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru i'w hannog i fanteisio ar ganllaw a rhestr gyfeirio ar-lein Digital UK er mwyn eu helpu i baratoi ar gyfer y newid i ddigidol.  Mae modd gweld y canllaw trwy droi at www.digitaluk.co.uk/localgov

## 3. Cymorth Cymunedol Lleol

- Tîm Cenedlaethol Digital UK – mae Gwenllïan Carr, Rheolwr Cenedlaethol Digital UK yng Nghymru, yn arwain tîm o dri.  Mae S4C yn darparu adnodd swyddfa ganolog.
- Bydd Digital UK yn gweithio gyda Digital Outreach Ltd, consortiwm elusennau, i drefnu rhaglen dreigl o gyfarfodydd a digwyddiadau lleol,

dosbarthu deunyddiau gwybodaeth allweddol yn ystod y chwe mis cyn y newid, yn ogystal â rhwydwaith o ganolfannau galw heibio pan fydd y newid yn digwydd, ar gyfer y rhai y bydd angen ychydig gymorth ychwanegol arnynt efallai.

## Cynllun Cymorth y Newid i Ddigidol

Cychwynnodd Cynllun Cymorth y Newid (CCN) ar ei waith yn 2007. Mae'r BBC yn gyfrifol am redeg y Cynllun Cymorth gyda chytundeb Llywodraeth y DU ac mae'n darparu help, gan gynnwys trosi un set deledu, i unigolion cymwys. Mae'r Cynllun Cymorth yn cyfathrebu yn uniongyrchol gyda'r bobl y maent yn gymwys i gael help a chreu ymwybyddiaeth ehangach o'r hyn y gall ei wneud ymhlith y rhai sy'n gofalu am ddinasyddion a allai fod yn agored i niwed, a'r rhai sy'n cynorthwyo dinasyddion o'r fath.

Bydd ymgyrch wybodaeth er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyffredinol o'r cynllun yn cael ei lansio wyth mis cyn y newid cyntaf yng Nghymru.

### Pa help y mae'r Cynllun yn ei ddarparu?

- Mae Cynllun Cymorth y Newid ar gael i bobl 75 oed neu'n hŷn, y maent yn gymwys i hawlio lwfans gweini, lwfans byw i'r anabl neu atodiad symudedd, neu y maent wedi'u cofrestru fel unigolion dall neu rhannol ddall
- Gofynnir i unigolion cymwys gyfrannu £40 tuag at y gost o drosi un set deledu, oni bai eu bod yn derbyn budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm (credyd pensiwn, cymhorthdal incwm neu lwfans ceisio gwaith wedi'i seilio ar incwm), lle y bydd yr help ar gael am ddim
- Mae'r help yn cynnwys offer hawdd i'w ddefnyddio, gwasanaeth gosod, cymorth yn eu cartrefi, dysgl loeren neu erial er mwyn sicrhau y bydd yr offer yn gweithio, yn ôl yr angen
- Bydd y Cynllun Cymorth yn ysgrifennu at bob unigolyn cymwys yn uniongyrchol hyd at dair gwaith er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r hyn y maent yn gymwys i'w gael. Dosbarthir y deunydd cyfathrebu rhagweithiol cyntaf i unigolion cymwys, y 'Pecyn Dewisiadau' a fydd yn disgrifio'r Cynllun a'r dewisiadau sydd ar gael, oddeutu bum mis cyn y newid


## Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:


- Simon Crine, Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol Digital UK
  Simon.crine@digitaluk.co.uk

  020 7462 5422
- Gwenllïan Carr, Rheolwr Cenedlaethol Digital UK, Cymru
  gwenllian.carr@digitaluk.co.uk


  07792 010 758

# Atodiad 1



OFFICE OF COMMUNICATIONS
Wenvoe & its relays : switchover in Q1 2010
Carmel & its relays : switchover in Q3 2009
Preseli & its relays : switchover in Q3 2009
Blaenplwyf & its relays : switchover in Q1 2010
Kilvey Hill & its relays : switchover in Q3 2009
Llanddona & its relays : switchover in Q4 2009
Moel-y-Parc & its relays : switchover in Q4 2009
Long Mountain & its relays : switchover in Q4 2009
Map Images © Crown Copyright.
All rights reserved.
Licensee: Ofcom, 2008
Licence No:100018047
v1.6, 29 January 2008
*Note: Ferryside has already switched over to digital.
Map subject to change as DSO plan develops.
TV Transmitters in
ITV Wales
LLANDDONA
MOEL-Y-PARC
LONG MOUNTAIN
BLAENPLWYF
PRESELI
CARMEL
Kilvey Hill
WENVOE
See Separate
South Wales
Map

## De Cymru


Wenvoe & its relays : switchover in Q1 2010
Kilvey Hill & its relays: switchover in Q3 2009
Carmel & its relays : switchover in Q3 2009
Presell & its relays : switchover in Q3 2009
Map Images © Crown Copyright.
All rights reserved.
Licensee: Ofcom, 2008
Licence No:100018047
v1.6, 27 February 2008
TV Transmitters in
ITV South Wales
Sennybridge
Trecastle
Brecon
Pennorth
Crucorney
Crickhowell
Llanfoist
Clydach
Abergavenny
Monmouth
CARMEL
Cwm-gors
Cwmtwrch
Abercraf
Ystalyfera
Penderyn
Trefechan
Dowlais
Ebbw Vale
Nantyglo
Blaina
Ebbw Vale South
Merthyr Tydfil
South Tredegar
Blaenavon
Blaenau Gwent
Rheola
Alltwen
Pontardawe
Craig-Cefn-Parc
Rhymney
Aberbeeg
Abertillery
Deri
Cwm Ffrwd-Oer
Usk
Bargoed
Llanhilleth
Aberdare
Bedlinog
Glyncorrwg
Tynewydd
Cwmaman
Neath Abbey HP
Neath Abbey VP
Cilfrew
Fernhill
Ynysowen
Crumlin
Pontypool
Blaenllechau
Penrhiwceiber
Abergwynfi
Ferndale
Efail Fach
Treharris
Briton Ferry
Tonpentre
Rhondda HP
Pennar
Duffryn
Croeserw HP
Croeserw VP
Rhondda VP
Abercynon
Llanfach
Chepstow
Kilvey Hill
Cwmafon
Gelli-fendigaid
Mynydd Bach
Upper Killay
Rhondda Fach
Nant-y-Moel
Porth
Wattsville
Maesteg
Tonypandy
Cwmfelinfach
Risca
Trebanog
Mynydd Machen
Ogmore Vale
Mynydd Emroch
Pontypridd
Machen Upper
South Maesteg
Llangeinor
Gilfach
Abertridwr
Tonyrefail
Blackmill
Van Terrace
Taffs Well
Llanharan
WENVOE